



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 Rhif 1892 (Cy.185)**

**2010 No. 1892 (W.185)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a  
Chynlluniau Cymorth y Polisi  
Amaethyddol Cyffredin (Cymru)  
2010

The Common Agricultural Policy  
Single Payment and Support  
Schemes (Wales) Regulations 2010

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer gweinyddu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16), ac offerynnau cysylltiedig eraill yr UE (Undeb Ewropeaidd), mewn perthynas â chynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

These Regulations make provision, in relation to Wales, for the administration of Council Regulation (EC) No 73/2009 (OJ No L 30, 31.1.2009, p. 16), and other associated EU (European Union) instruments, in relation to direct support schemes under the Common Agricultural Policy.

Maent yn parhau'r trefniadau a oedd yn gymwys o dan Reoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005, O.S. 2005/360 (Cy.29) fel y'i diwygiwyd.

They continue the arrangements which applied under the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2005, S.I. 2005/360 (W. 29) as amended.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod Cymru'n rhanbarth sengl at ddibenion y cynlluniau cymorth uniongyrchol.

Regulation 3 provides that Wales is a single region for the purposes of the direct support schemes.

Mae rheoliad 4 yn pennu maint lleiaf daliad y ceir gwneud cais am sefydlu hawlogaethau mewn perthynas ag ef.

Regulation 4 specifies the minimum size of a holding in respect of which the establishment of entitlements may be requested.

Mae rheoliad 5 yn gosod yr arwynebedd lleiaf y ceir gwneud hawliad mewn perthynas ag ef, ac mewn rhai achosion, gwerth lleiaf yr hawliad.

Regulation 5 sets the minimum area in respect of which a claim may be made and in some cases the minimum claim value.

Mae rheoliad 6 yn pennu'r dyddiad pan fo rhaid i barseli, a ddefnyddir fel sail i hawliad o dan y Cynllun Taliad Sengl, fod ar gael at ddefnydd ffermwyr.

Regulation 6 fixes the date on which parcels used as the basis for a claim under the Single Payment Scheme must be at the disposal of farmers.

Mae rheoliad 7 yn pennu cyfanswm y didyniadau modiwlleiddio gwirfoddol a wneir o daliadau uniongyrchol sy'n daladwy i ffermwyr.

Regulation 7 specifies the total voluntary modulation deductions which will be made from direct payments payable to farmers.

Mae rheoliad 8 yn dynodi pa rywogaethau o goed ar gyfer coedlannau cylchdro byr sy'n gymwys o dan y cynllun taliad sengl ac yn pennu'r cylchdro cynaefu hwyaf.

Regulation 8 designates the short rotation coppice tree species eligible under the single payment scheme and sets the maximum harvest cycle.

Mae rheoliad 9 yn darparu mai o fewn Cymru yn unig y ceir defnyddio a throsglwyddo hawlogaethau i daliad a sefydlwyd yng Nghymru.

Mae rheoliad 10 yn dirymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005, O.S. 2005/360 (Cy.29) a'r diwygiadau iddynt, a Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005, O.S. 2005/45 (Cy.4) a'r diwygiadau iddynt.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan fod y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn naill ai'n parhau trefniadau sy'n bodoli eisoes, neu, yn achos y ddarpariaeth ynglŷn â choedlannau cylchdro byr, yn achosi cost ychwanegol ddibwys i fusnesau.

Regulation 9 provides that payment entitlements established in Wales are only used and transferred within Wales.

Regulation 10 revokes the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2005, S.I. 2005/360 (W. 29) and its amendments, and the Common Agricultural Policy Single Payment Scheme (Set-aside) (Wales) Regulations 2005, S.I. 2005/45 (W. 4) and its amendments.

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared as the provisions covered by these Regulations either continue the existing arrangements or, in the case of the new provision on short rotation coppice, will have a negligible additional cost to business.

**2010 Rhif 1892 (Cy.185)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a  
Chynlluniau Cymorth y Polisi  
Amaethyddol Cyffredin (Cymru)  
2010**

*Gwnaed* 22 Gorffennaf 2010

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 23 Gorffennaf 2010

*Yn dod i rym* 16 Awst 2010

CYNNWYS

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Rhanbarth
4. Maint lleiaf daliad ar gyfer sefydlu hawlogaethau
5. Hawliad lleiaf
6. Dyddiad pan fo rhaid i dir cymwys fod ar gael at ddefnydd y ffermwr
7. Modiwleiddio gwirfoddol
8. Coedlannau cylchdro byr
9. Hawlogaethau i daliad
10. Dirymu

ATODLEN Cyfran benodedig o fodiwleiddio gwirfoddol

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

---

(1) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weiniogion Cymru.

(2) 1972 p.68.

**2010 No. 1892 (W.185)**

**AGRICULTURE, WALES**

**The Common Agricultural Policy  
Single Payment and Support  
Schemes (Wales) Regulations 2010**

*Made* 22 July 2010

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 23 July 2010

*Coming into force* 16 August 2010

CONTENTS

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Region
4. Minimum size of holding to establish entitlements
5. Minimum claim
6. Date on which eligible land must be at the farmer's disposal
7. Voluntary modulation
8. Short rotation coppice
9. Payment entitlements
10. Revocation

SCHEDULE Specified proportion of voluntary modulation

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

---

(1) S.I. 2005/2766. By virtue of sections 59 and 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, functions conferred upon the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers.

(2) 1972 c.68.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at offerynnau'r UE gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

### **Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac yn dod i rym ar 16 Awst 2010.

### **Dehongli**

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1120/2009 dyddiedig 29 Hydref 2009 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r cynllun taliad sengl y darperir ar ei gyfer yn Nheitl III o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009(1); ac

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 dyddiedig 19 Ionawr 2009 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr(2).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn yr UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

### **Rhanbarth**

3. Mae Cymru yn rhanbarth sengl at ddibenion Erthygl 46(2) o Reoliad y Cyngor.

### **Maint lleiaf daliad ar gyfer sefydlu hawlogoethau**

4. At ddibenion Erthygl 25(4) o Reoliad y Comisiwn maint lleiaf daliad y ceir gwneud cais am sefydlu hawlogoethau i daliad ar ei gyfer yw 0.3 hectar.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in that section and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the references to the EU instruments in these Regulations to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972.

### **Title, application and commencement**

1.–(1) The title of these Regulations is the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales, and come into force on 16 August 2010.

### **Interpretation**

2.–(1) In these Regulations–

"the Commission Regulation" ("*Rheoliad y Comisiwn*") means Commission Regulation (EC) No 1120/2009 of 29 October 2009 laying down detailed rules for the implementation of the single payment scheme provided for in Title III of Council Regulation (EC) No 73/2009(1); and

"the Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No 73/2009 of 19 January 2009 establishing common rules for direct support schemes for farmers under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers(2).

(2) Any reference in these Regulations to an EU instrument is a reference to that instrument as amended from time to time.

### **Region**

3. Wales is a single region for the purposes of Article 46(2) of the Council Regulation.

### **Minimum size of holding to establish entitlements**

4. For the purposes of Article 25(4) of the Commission Regulation the minimum size of a holding for which the establishment of payment entitlements may be requested is 0.3 hectares.

---

(1) OJ Rhif L 316, 2.12.2009, t. 10.

(2) OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 360/2010 (OJ Rhif L 106, 28.4.2010, t. 1).

---

(1) OJ No L 316, 2.12.2009, p. 10.

(2) OJ No L 30, 31.1.2009, p. 16 as last amended by Commission Regulation (EU) No 360/2010 (OJ No L 106, 28.4.2010, p. 1).

### Hawliad lleiaf

5. At ddibenion Erthygl 28(1) o Reoliad y Cyngor y lleiafswm sy'n ofynnol ar gyfer hawliad yw un hectar yn achos ffermwyr nad ydynt yn dal hawlogaethau arbennig yn unol â'r Erthygl honno, a €100 yn achos ffermwyr sy'n dal hawlogaethau arbennig.

### Dyddiad pan fo rhaid i dir cymwys fod ar gael at ddefnydd y ffermwr

6. Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn pan fo'r ffermwr yn gwneud datganiad ynglŷn â pharseli yn unol ag Erthygl 35(1) o Reoliad y Cyngor, y dyddiad pan fo rhaid i'r parseli hynny fod ar gael at ddefnydd y ffermwr yw 15 Mai yn y flwyddyn honno.

### Modiweiddio gwirfoddol

7. Y cyfraddau yn nhrydedd golofn yr Atodlen yw'r modiweiddio gwirfoddol y cyfeirir ato yn Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 378/2007 dyddiedig 27 Mawrth 2007 sy'n pennu rheolau ar gyfer modiweiddio yn wirfoddol y taliadau uniongyrchol(1).

### Coedlannau cylchdro byr

8. At ddibenion Erthygl 2(n) o Reoliad y Comisiwn—

(a) y rhestr o rywogaethau coed yw—

Gwern (*Alnus spp.*);

Bedw (*Betula spp.*);

Cyll (*Corylus avellana*);

Ynn (*Fraxinus excelsior*);

Pisgwydd (*Tilia cordata*);

Castanwydd (*Castanea sativa*);

Masarn (*Acer pseudoplatanus*);

Helyg (*Salix spp.*);

Poplys (*Populus spp.*);

Oestrwydd (*Carpinus spp.*); a

(b) y cylchdro cynaefu hwyaf yw 20 mlynedd.

### Hawlogaethau i daliad

9. Yn unol â'r trydydd is-baragraff o Erthygl 43(1) o Reoliad y Cyngor, ni cheir defnyddio na throsglwyddo hawlogaethau i daliad o dan y cynllun taliad sengl, sydd i'w priodoli i Gymru ac a sefydlwyd yng Nghymru, ac eithrio o fewn Cymru.

### Minimum claim

5. For the purposes of Article 28(1) of the Council Regulation the minimum requirement for a claim is one hectare for farmers who do not hold special entitlements in accordance with that Article, and €100 for farmers who hold special entitlements.

### Date on which eligible land must be at the farmer's disposal

6. In relation to any year in which the farmer makes a declaration in respect of parcels pursuant to Article 35(1) of the Council Regulation, the date on which those parcels must be at the farmer's disposal is the 15 May of that year.

### Voluntary modulation

7. The rates in the third column of the Schedule are the voluntary modulation referred to in Article 1 of Council Regulation (EC) No 378/2007 of 27 March 2007 laying down rules for voluntary modulation of direct payments(1).

### Short rotation coppice

8. For the purposes of Article 2(n) of the Commission Regulation—

(a) the list of tree species is—

Alder (*Alnus spp.*);

Birch (*Betula spp.*);

Hazel (*Corylus avellana*);

Ash (*Fraxinus excelsior*);

Lime (*Tilia cordata*);

Sweet chestnut (*Castanea sativa*);

Sycamore (*Acer pseudoplatanus*);

Willow (*Salix spp.*);

Poplar (*Populus spp.*);

Hornbeam (*Carpinus spp.*); and

(b) the maximum harvest cycle is 20 years.

### Payment entitlements

9. Pursuant to the third sub-paragraph of Article 43(1) of the Council Regulation, payment entitlements under the single payment scheme attributable to and established in Wales, may only be used or transferred within Wales.

(1) OJ Rhif L95, 5.4.2007, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16).

(1) OJ No L95, 5.4.2007, p. 1 as last amended by Council Regulation (EC) No 73/2009 (OJ No L 30, 31.1.2009, p. 16).

## Dirymu

### 10. Dirymir y Rheoliadau canlynol—

- (a) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005(1);
- (b) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006(2);
- (c) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2008(3);
- (ch) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2009(4);
- (d) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005(5);
- (dd) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006(6).

## Revocation

### 10. The following Regulations are revoked—

- (a) The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2005(1);
- (b) The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) (Amendment) Regulations 2006(2);
- (c) The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) (Amendment) Regulations 2008(3);
- (d) The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) (Amendment) Regulations 2009(4);
- (e) The Common Agricultural Policy Single Payment Scheme (Set-aside) (Wales) Regulations 2005(5);
- (f) The Common Agricultural Policy Single Payment Scheme (Set-aside) (Wales) (Amendment) Regulations 2006(6).

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

22 Gorffennaf 2010

22 July 2010

---

(1) O.S. 2005/360 (Cy. 29).  
(2) O.S. 2006/357 (Cy. 45).  
(3) O.S. 2008/2500 (Cy. 218).  
(4) O.S. 2009/3129 (Cy. 272).  
(5) O.S. 2005/45 (Cy. 4).  
(6) O.S. 2006/3101 (Cy. 285).

---

(1) S.I. 2005/360 (W. 29).  
(2) S.I. 2006/357 (W. 45).  
(3) S.I. 2008/2500 (W. 218).  
(4) S.I. 2009/3129 (W. 272).  
(5) S.I. 2005/45 (W. 4).  
(6) S.I. 2006/3101 (W. 285).

ATODLEN

Rheoliad 7

Cyfraddau modiweiddio gwirfoddol

**Ar gyfer symiau hyd at a chan gynnwys €5,000:**

<i>Blwyddyn</i>	<i>Modiweiddio gorfodol yr UE</i>	<i>Modiweiddio gwirfoddol</i>	<i>Cyfanswm y modiweiddio</i>
2009	0 %	4.2 %	4.2 %
2010	0 %	5.8 %	5.8 %
2011	0 %	6.5 %	6.5 %
2012	0 %	6.5 %	6.5 %

**Ar gyfer symiau dros €5,000 a hyd at a chan gynnwys €300,000:**

<i>Blwyddyn</i>	<i>Cyfraddau modiweiddio gorfodol yr UE, a ddarperir ar eu cyfer yn Erthygl 7 o Reoliad y Cyngor</i>	<i>Modiweiddio gwirfoddol</i>	<i>Cyfanswm y modiweiddio</i>
2009	7%	2.2 %	9.2 %
2010	8%	2.8 %	10.8 %
2011	9%	2.5 %	11.5 %
2012	10%	1.5 %	11.5 %

**Ar gyfer symiau dros €300,000:**

<i>Blwyddyn</i>	<i>Cyfraddau modiweiddio gorfodol yr UE, a ddarperir ar eu cyfer yn Erthygl 7 o Reoliad y Cyngor</i>	<i>Modiweiddio gwirfoddol</i>	<i>Cyfanswm y modiweiddio</i>
2009	11 %	0 %	11 %
2010	12 %	0 %	12 %
2011	13 %	0 %	13 %
2012	14 %	0 %	14 %

## SCHEDULE

Regulation 7

### Voluntary modulation rates

**For amounts up to and including €5,000:**

<i>Year</i>	<i>EU compulsory modulation</i>	<i>Voluntary modulation</i>	<i>Total modulation</i>
2009	0 %	4.2 %	4.2 %
2010	0 %	5.8 %	5.8 %
2011	0 %	6.5 %	6.5 %
2012	0 %	6.5 %	6.5 %

**For amounts over €5,000 and up to and including €300,000:**

<i>Year</i>	<i>EU compulsory rates of modulation provided for in Article 7 of the Council Regulation</i>	<i>Voluntary modulation</i>	<i>Total modulation</i>
2009	7%	2.2 %	9.2 %
2010	8%	2.8 %	10.8 %
2011	9%	2.5 %	11.5 %
2012	10%	1.5 %	11.5 %

**For amounts over €300,000:**

<i>Year</i>	<i>EU compulsory rates of modulation provided for in Article 7 of the Council Regulation</i>	<i>Voluntary modulation</i>	<i>Total modulation</i>
2009	11 %	0 %	11 %
2010	12 %	0 %	12 %
2011	13 %	0 %	13 %
2012	14 %	0 %	14 %

©D Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.









---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2010 Rhif 1892 (Cy.185)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a  
Chynlluniau Cymorth y Polisi  
Amaethyddol Cyffredin (Cymru)  
2010

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 No. 1892 (W.185)**

**AGRICULTURE, WALES**

The Common Agricultural Policy  
Single Payment and Support  
Schemes (Wales) Regulations 2010

£5.75

W734

ON

ISBN 978-0-348-10251-2



9 780348 102512